| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 25 Medi 2024 |
| **Swyddog / Aelod Arweiniol** | Julie Matthews, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol / Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes |
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl |
| **Awdur yr adroddiad** | David Roberts, Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2023/24 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2023/24.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am reolaeth Iechyd a Diogelwch yn CSDd yn ystod 2023-2024.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn adolygu cynnwys yr adroddiad ac yn gwneud sylwadau arno.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Crynodeb. Mae'r manylion sy'n ymwneud â'r crynodeb hwn i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae'r asesiad cyffredinol o ddull CSDd o weithredu systemau Iechyd a Diogelwch ac o'r modd y mae gweithwyr yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch ill dau yn aros yr un fath ac yn cyrraedd sicrwydd canolig (melyn). At ei gilydd, mae'r systemau rheoli Iechyd a Diogelwch yr ydym wedi dod ar eu traws wedi'u datblygu a'u cofnodi. Ar y cyfan, caiff peryglon sylweddol eu nodi a'u rheoli er mwyn lleihau risg. Yn gyffredinol,

mae'r gweithwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a defnyddio systemau rheoli Iechyd a Diogelwch.

Pwyntiau i'w nodi. Mae'r diwylliant Iechyd, Diogelwch a Lles yn CSDd wedi bod yn gwella'n barhaus ers sawl blwyddyn. Roedd pandemig Covid 19 yn her sylweddol i'r ffordd yr oeddem yn gweithio ac yn rheoli diogelwch yn y gweithle, ac mae'r "Ffyrdd Newydd o Weithio" a ddaeth yn ei sgil wedi parhau â'r her hon.

Mewn ymateb i'r her, cynigiwyd cynllun gweithredu Iechyd a Diogelwch ym mis Hydref 2023.
Fel rhan o'r cynllun hwn, rhannwyd holiadur hunanasesu a lenwyd gan bob Rheolwr Gweithredu i nodi mannau sydd angen eu gwella mewn perthynas â'u systemau rheoli Iechyd a Diogelwch lleol.

Yn ychwanegol at y dadansoddiad hwn o'r bylchau, cytunwyd ar strwythur diwygiedig i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, a rhoddwyd hwnnw ar waith. Mae hwn bellach yn cynnwys y Cydbwyllgor Ymgynghorol/Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, wedi'i gefnogi gan dri grŵp Iechyd a Diogelwch dan arweiniad Cyfarwyddwr, gyda nifer o Grwpiau Iechyd a Diogelwch Gwasanaethau a Thimau ychwanegol yn ôl yr angen.

Bwriad y ffocws newydd ar reoli Iechyd a Diogelwch yw codi ymwybyddiaeth o Iechyd a Diogelwch, gwella cyfathrebu, annog gweithwyr i gymryd rhan a hybu diwylliant Iechyd a Diogelwch cadarnhaol.

Cynhaliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymweliad dirybudd â Meifod Wood Products (Gorffennaf 2023) i edrych ar fesurau rheoli llwch mewn amgylchedd gwaith coed. Gwelodd yr arolygydd fod y gweithle'n cael ei reoli'n dda ar y cyfan, er y codwyd dau bryder a oedd yn ymwneud â llwch. Deliwyd â'r pryderon yn brydlon gan y tîm rheoli ar y safle ac mae'r Awdurdod wedi cau'r achos heb gymryd unrhyw gamau gweithredu a heb fod angen camau dilynol.

Cynhaliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymweliad hefyd ag Ysgol Trefnant (Mawrth 2024) ar ôl i goncrit awyredig awtoclafiedig cydnerth (RAAC) gael ei ganfod ar y safle, i archwilio'r trefniadau i gael gwared â'r concrit hwnnw a'r

ddyletswydd i reoli Asbestos. Roedd yr Awdurdod yn fodlon â'r holl weithgareddau rheoli ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Cafwyd digwyddiad ar ymweliad addysgol ym mis Tachwedd 2022 pan gafodd disgybl a chymhorthydd addysgu eu gwahanu oddi wrth eu prif grŵp, gan fynd ar goll. Yn dilyn ymchwiliad, rhoddodd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gynllun gweithredu ar waith ar gyfer 2023/24 i adolygu'r broses 'Evolve' a darparu hyfforddiant i staff ysgolion ar asesiadau risg a phrosesau rheoli ymweliadau addysgol. Mae'r broses hon wedi'i chwblhau, gyda dros 90 o aelodau staff ysgolion wedi cael hyfforddiant ar asesu risgiau ymweliadau addysgol, a hyfforddiant pellach yn cael ei gynnig ar gyfer 2025.

Mae'r gwaith monitro Dirgryniad Llaw-Braich wedi parhau drwy gydol y flwyddyn, gyda thimau sy'n defnyddio cyfarpar dirgrynu'n cael eu monitro bob hyn a hyn drwy ddefnyddio dyfeisiau y maent yn eu gwisgo am gyfnodau o 6 i 8 wythnos. Nid yw Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi cael gwybod am fwy o bobl sydd wedi cael diagnosis o Syndrom Ddirgryniad Llaw-Braich (HAVS) na Syndrom Twnnel y Carpws. Mae lefel bresennol y risg sy'n gysylltiedig â gweithwyr sy'n defnyddio cyfarpar Dirgrynu Llaw-Braich wedi'i asesu fel sicrwydd canolig.

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi treulio cryn dipyn o amser yn cefnogi depo gwastraff ac ailgylchu newydd Colomendy o'r cam adeiladu, drwy'r gwaith o'i gomisiynu hyd at ei weithredu. Rhoddwyd cymorth gydag asesiadau risg a systemau gweithio diogel, gwella prosesau, monitro sŵn amgylcheddol dangosol ac ymchwilio i ddamweiniau. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

4.2. Darperir cymorth Iechyd a Diogelwch yn CSDd gan y Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl. Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol:

- Mae Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn dîm bychan sy'n darparu cyngor, arweiniad, asesiadau a hyfforddiant ar faterion iechyd a diogelwch galwedigaethol ar draws y sefydliad. Nid oes gan y tîm unrhyw bwerau cyfreithiol i reoleiddio na gorfodi.
- Roedd y tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (hyd at Ebrill 2024) yn cynnwys
  1 Rheolwr IaD, 1 Uwch Swyddog IaD, 1 Swyddog IaD,
  1 Swyddog IaD Cynorthwyol, 1 Swyddog Risgiau Ffyrdd,
  1 Swyddog Technegol (3 diwrnod/wythnos).

- Mae’r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol bellach yn cynnwys pum swyddog (ers Mai 2024).

Darperir cymorth Iechyd a Diogelwch arall yn CSDd gan Swyddogion yn y Gwasanaethau: Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau.

- 1 Rheolwr arbenigol Adeiladu
- Tîm cydymffurfiaeth adeiladau sy’n gofalu am ddiogelwch cyfleusterau gan gynnwys nwy, trydan, systemau dŵr, asbestos a thân.

Darperir cymorth Iechyd a Diogelwch arall yn CSDd gan gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch Undebau sy’n gweithio ar draws CSDd.

4.3. Mae ystadegau Damweiniau a Digwyddiadau i’w gweld yn yr atodiadau canlynol:

- Blwyddyn ariannol 01-04-2023 i 31-03-2024 yn Atodiad 2.
- Y cyfnod rhwng 01-04-2024 a 31-08-2024 yn Atodiad 3.
- Mae’r duedd ar gyfer 2020, 2021 a 2022 wedi’u cynnwys yn Atodiad 4.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Disgwylir safonau Iechyd a Diogelwch da ym mhob maes y mae’r Awdurdod Lleol yn ei reoli ac mae hynny’n sail i’r holl Flaenoriaethau Corfforaethol. Os byddwn yn rheoli Iechyd, Diogelwch a Lles yn iawn yn ein gweithleoedd, mae’n cefnogi’r dyhead o gael Cyngor sydd wedi’i redeg yn dda ac yn dangos diwylliant lle mae pobl yn bwysig.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gost ychwanegol ynghlwm â rheoli Iechyd, Diogelwch a Lles yn iawn yn ein gweithleoedd; yn wir, gall helpu gydag effeithlonrwydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Adroddiad diweddaru blynyddol yw hwn, felly nid oes angen cynnal asesiad o’r effaith ar les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Adroddiad blynyddol yw hwn sy'n edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adroddiad Llywodraethu ac Archwilio yw hwn, a'r Pwyllgor fydd yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau y bernir bod angen eu gwneud.